Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn:(029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel:(029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

# CYNGOR CAERDYDD

## DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

## DARPARIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## YSGOL GYNRADD HERBERT THOMPSON

**HYSBYSIR DRWY HYN** yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, bod Cyngor Caerdydd ("yr Awdurdod"), ar ôl ymgynghori ag unrhyw bersonau yr oedd yn ymddangos iddynt eu bod yn briodol, yn cynnig newid Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Plymouth Wood Road, Trelái, Caerdydd, CF5 4XD fel a ganlyn:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 16 lle ar gyfer Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson, yn yr adeiladau presennol.

Cynigir gweithredu’r cynnig o fis Medi 2025.

Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Caerdydd ar hyn o bryd.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi’r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn ar y newid arfaethedig ar gael i'w weld yma:

Agenda'r Cabinet Ddydd Iau, 21 Mawrth, 2024, 2:00 pm: Cyngor Caerdydd (moderngov.co.uk)

Ar hyn o bryd, capasiti’r ysgol yw 420 o leoedd ar gyfer plant 4-11 oed. Mae 80 o leoedd meithrin. Nifer cyfredol y disgyblion yn yr ysgol yw 405 (4-11) a 72 (oed meithrin).

Nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i ysgolion o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Byddai derbyniadau i’r ganolfan adnoddau arbenigol yn cael ei reoli gan yr awdurdod lleol, yn amodol ar Gynllun Datblygu Unigol (CDU).

Byddai derbyniadau i'r ganolfan adnoddau arbenigol ar wahân i'r derbyniadau i'r brif ysgol a byddai'n ychwanegol at y Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC).

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i’r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.

CARDIFF
CAERDYDD

Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn:(029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk

County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel:(029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

O fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at 07 Mai 2024, caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd i'r cyfeiriad e-bost canlynol: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Nodwch fod rhaid i unrhyw wrthwynebiadau o'r fath gynnwys enw llawn a chyfeiriad post yr un sy'n gwrthwynebu.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â sylwadau'r awdurdod ar y gwrthwynebiadau hynny, cyn pen 7 niwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y penderfynir ar y cynnig.

Dyddiedig 10 Ebrill 2024

Llofnod: Leanne Weston
Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro
Cyngor Caerdydd

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyron cyffredinol)

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i egwyddorion cynhwysiant. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol, ac yn elwa ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) effeithiol. Nid oes angen i'r dysgwyr hyn fynychu ysgol arbennig na chanolfan adnoddau arbenigol.

Fodd bynnag, cydnabyddir, er mwyn ffynnu a chyflawni eu potensial, fod angen i blant a phobl ifanc sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth gael mynediad i amgylcheddau arbenigol ac arbenigedd ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol. Mae nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol wedi parhau i dyfu.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu a chynyddu'r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer dysgwyr oed cynradd sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol. Gallai hyn fod mewn darpariaeth lles dros dro sy'n cefnogi dysgwyr i barhau mewn ysgolion prif ffrwd, ac mewn darpariaeth arbenigol lle mae lleoliadau parhaol yn briodol.

Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

Yn ogystal â'r cynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Herbert Thompson, mae cynigion i sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol Iechyd a Lles Emosiynol ar gyfer disgyblion oed cynradd yn Ysgol Gynradd Baden Powell, Ysgol Gynradd y Tyllgoed, Ysgol Gynradd Lakeside ac Ysgol Gynradd Springwood yn cael eu datblygu. Mae'r cynnig i ehangu Ysgol Cynefin (a elwid gynt yn Ysgol Arbennig The Court) sy'n darparu lleoedd Iechyd a Lles Emosiynol ar gyfer disgyblion oed cynradd hefyd yn cael ei ddatblygu. Ar gyfer disgyblion oed uwchradd, mae cynigion i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn cael eu datblygu.

O ran Anghenion Dysgu Cymhleth ac Awtistiaeth, mae cynigion i sefydlu canolfannau adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Coed Glas, Ysgol Gynradd Greenway ac Ysgol Gynradd Severn yn cael eu datblygu.

Gellir gweld manylion o'r cynigion hyn a chopïau o'r hysbysiadau statudol yn:

Cynigion ac Ymgynghoriadau (caerdydd.gov.uk)